# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU
# NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drafnidiaeth : *Cross Party Group on Transport*

Noddwr : Russell George AC AM : *Sponsor*

6 Chwefror 2019: 6 February 2019

**AGENDA**

Croeso a chyflwyniad (Cofiwch lofnodi'r daflen bresenoldeb)
Ymddiheuriadau am absenoldeb
Cofnodion y cyfarfod blaenorol
Materion sy'n codi
Cyflwyniad Gloria Esposito, Pennaeth Prosiectau yn y Bartneriaeth Cerbydau Carbon Isel
Sesiwn holi ac ateb
Unrhyw Fater Arall
Trefniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf

Darperir lluniaeth oherwydd nawdd gan CPT Cymru

*****

Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Drafnidiaeth, a gynhaliwyd yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd, ar 6 Chwefror 2019.

Russell George AC oedd y Cadeirydd, ac roedd John Pockett yn bresennol fel ysgrifennydd.

Yn bresennol:
Jenny Rathbone AC	Mike Hedges AC
Vikki Howells AC	David Rowlands AC
Gareth Price, Gwasanaethau pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Lara Date, Gwasanaethau pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Andrew Minnis, Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Alex Williams, Swyddfa Russell George AC
Scott Pearson, Trafnidiaeth Casnewydd	Nigel Winter, Stagecoach yn ne Cymru
Andrew Sherrington, First Cymru	James Price, Trafnidiaeth Cymru
Lewis Brencher, Trafnidiaeth Cymru	Ian Jarman, Owens Group Llanelli
David Watkins, Day's Motor Group	Sally Gilson, FTA
Mark Youngman, Baytrans Abertawe	Sam Hadley, Network Rail
David Beer, Transport Focus	Christine Boston, CTA Cymru
Cynthia Ogbonna, Bws Caerdydd	Carolyn Pugsley, Freshwater
Helen Parfitt, Swyddfa H M Jones AC	Craig Lawton, Swyddfa Suzy Davies AC
Margaret Everson, Defnyddwyr Bysiau Cymru	Barclay Davies, Defnyddwyr Bysiau Cymru

Chris Roberts, CPGATA
Jo Foxall, Traveline / PTI Cymru	Kevin Roderick, Traveline / PTI Cymru

Siaradwr gwadd: Gloria Esposito, Pennaeth Prosiectau yn y Bartneriaeth Cerbydau Carbon Isel

Ymddiheuriadau:
Dai Lloyd AC, David Rees AC, Huw Iranca-Davies AC, Michael Morton, Bysiau Arriva Cymru.

Croesawodd RG bawb i ail gyfarfod llawn Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Drafnidiaeth, a gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2018. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

Cyflwynodd RG Gloria Esposito, Pennaeth Prosiectau yn y Bartneriaeth Cerbydau Carbon Isel. Roedd cyflwyniad Gloria yn ymdrin â phwysigrwydd cerbydau carbon isel, a'u cyfraniad i'r ymgais o leihau allyriadau, gwella lles a lleihau problemau iechyd. (Darparwyd sleidiau'r cyflwyniad wedi hynny, ac mae rhagor o gopïau ar gael gan ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol).

Yna cafwyd trafodaeth ford gron gynhwysfawr a chymerodd llawer o'r rheini a oedd yn bresennol ran ynddi. Cafwyd cwestiynau ac atebion ar rai o'r pwyntiau o'r cyflwyniad. Hefyd, cafodd Aelodau’r Cynulliad gyfle i ofyn cwestiynau i'r gweithredwyr trafnidiaeth a oedd yn bresennol ynghylch eitemau penodol. Roedd y pwyntiau'n cynnwys pwysigrwydd y bws wrth leihau allyriadau, tramiau/trenau, integreiddio, agor/ailagor gorsafoedd, datgarboneiddio, rôl y bws ym Metro De-ddwyrain Cymru, tocynnau integredig a phroblemau parcio.

Nid oedd materion eraill, a chytunodd yr aelodau a oedd yn bresennol i ganiatáu i'r cadeirydd a'r ysgrifennydd gysylltu ynghylch dyddiad a phwnc y cyfarfod nesaf a rhoi gwybod i'r aelodau a'r rhanddeiliaid yn briodol.